

# BPA mewn plastig

Ein polisi ar y cemegyn Biseffenol A (BPA) mewn plastig a'r gwaith ymchwil a'r dystiolaeth sy'n cefnogi ein dealltwriaeth ohono.

Mae Biseffenol A (BPA) yn gemegyn a ddefnyddir i wneud plastigion. Er bod peth trafod yn y gymuned wyddonol am effaith BPA ar iechyd pobl, rydym o'r farn ei fod yn gemegyn diogel i'w ddefnyddio wrth gynhyrchu plastig.

Mae BPA yn gemegyn a ddefnyddir i wneud plastigion gan gynnwys cynwysyddion sy'n dod i gysylltiad â bwyd. Mae hyn yn cynnwys poteli diod y gellir eu hail-lenwi a chynwysyddion storio bwyd. Caiff ei ddefnyddio hefyd i wneud haenau a leininau ar gyfer caniau bwyd a diod.

Nid yw'r lefelau o BPA a geir mewn bwyd yn peri pryder o ran iechyd. Mae rhai pobl yn pryderu am BPA achos gall ychydig bach iawn ohono drosglwyddo o ddeunydd pecynnu i fwyd a diod.

## Pryderon iechyd ynghylch BPA

Mae BPA yn un o blith nifer fawr o sylweddau a allai ryngweithio â'n system hormonau. Aeth arbenigwyr Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) ati i asesu'r dystiolaeth o ran y mater hwn a daethant i'r casgliad nad yw dod i gysylltiad â BPA drwy'r hyn y mae pobl yn ei fwyta yn peri unrhyw risg i iechyd pobl o unrhyw oed.

## Nid yw BPA yn niweidiol: y dystiolaeth

Mae gwyddonwyr yn amcangyfrif faint o sylwedd cemegol y gall rhywun ei fwyta bob dydd drwy gydol ei oes heb achosi risg sylweddol i'w iechyd. Dyma beth a elwir yn lefel y gellir ei goddef yn ddyddiol (TDI) ar gyfer sylwedd cemegol. Mae gan BPA TDI dros dro.

Ar hyn o bryd, rydym yn bwyta llai na'r TDI ar gyfer BPA o ffynonellau megis cynwysyddion bwyd. Rydym yn cytuno â chasgliad EFSA nad yw BPA yn peri unrhyw risg i iechyd pobl ar hyn o bryd.

## Gwaith ymchwil i BPA

Mae Rhaglen Genedlaethol Tocsicoleg (NTP) yr Unol Daleithiau yn cynnal astudiaeth tymor hir ar BPA. Mae'n edrych ar sut mae dod i gysylltiad â BPA yn effeithio ar lygod mawr, cyn ac ar ôl rhoi genedigaeth. Bydd yr astudiaeth yn gallu dweud wrthym ni p'un a allai dod i gysylltiad â BPA gynyddu'r risg o ddatblygu canser mewn pobl. Disgwylir y bydd y gwaith ymchwil wedi'i gyflawni yn gynnar yn 2018. Pan fydd canlyniadau'r astudiaeth yn hysbys, bydd EFSA yn adolygu'r TDI ar gyfer BPA eto.